

Paratoi ar gyfer Brexit

Adrodd ar barodrwydd y sector bwyd a diod yng Nghymru

Rhagfyr 2018

Cyflwyniad

Gyda llai na phum mis tan y bydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, mae'n amser priodol i ystyried yn fwy manwl barodrwydd gwahanol sectorau yng Nghymru. Mae'r trydydd adroddiad hwn, sef adroddiad olaf y gyfres, yn trafod goblygiadau Brexit i'r sector bwyd a diod yng Nghymru. Cafwyd cryn dipyn o dystiolaeth gan y sector yn rhinwedd ein gwaith ar gyfer ein hadroddiad ar berthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol, a dylid ystyried yr adroddiad a ganlyn ochr yn ochr â'r adroddiad hwnnw.

1. Er bod ein hadroddiad ar berthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol yn cyffwrdd â rhai agweddau ar oblygiadau Brexit i'r sector bwyd a diod yng Nghymru, ac er i'n hadroddiad cyntaf ar y goblygiadau i Gymru yn sgil ymadael â'r UE gynnwys sylwadau gan y sector, dyma ein hadroddiad llawn cyntaf sy'n canolbwyntio'n benodol ar y sector bwyd a diod. Ers cyhoeddi ein hadroddiadau blaenorol, cafwyd gwell syniad o ganlyniad y negodiadau a dyluniad posibl y cytundeb terfynol ar Brexit. Er bod peth ansicrwydd o hyd, mae Llywodraeth y DU wedi gwneud nifer o ymrwymadau a chynigion o ran sut yr hoffai weld cysylltiadau rhwng y DU a'r UE yn gweithio'n ymarferol ar ôl Brexit. Mae hyn yn cynnwys:

- cyhoeddi testun a negodwyd ar gyfer y Cytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE;



- cyhoeddi Papur Gwyn Llywodraeth y DU ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol; a
- cyhoeddi hysbysiadau technegol Llywodraeth y DU ar senario "dim bargaen".

2. Ar 14 Tachwedd 2018, cyhoeddwyd testun terfynol y negodiadau ar gyfer y Cytundeb Ymadael drafft rhwng y DU a'r UE. Mae'r cytundeb hwn yn ymdrin â'r materion sy'n deillio o ymadawriad y DU â'r UE. Cyhoeddir ein hadroddiad yng nghyd-destun y datblygiadau gwleidyddol sy'n dal i fynd rhagddynt o ran y Cytundeb Ymadael. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod nifer o rwystrau gwleidyddol i'w goresgyn cyn y gellir diystyru materion parodrwydd yn llwyr, yn enwedig o safbwynt senario "dim bargaen". Mae amserlen y rhwystrau gwleidyddol hyn yn debygol o ymestyn ymhell i 2019, ac rydym yn ystyried felly ei bod yn bwysig yn y cyfamser ein bod yn craffu ar waith paratoi Llywodraeth Cymru.

3. Er mwyn dylanwadu ar yr adroddiad hwn, gwnaethom gynnal sesiynau ar 8 Hydref 2018 â Gwyn Howells o Hybu Cig Cymru ac Andy Richardson o Bwyd a Diod Cymru.

4. Gwnaethom holi'r Prif Weinidog yn fanylach yn ystod sesiwn tystiolaeth lafar ar 5 Tachwedd 2018.

5. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi rhai o brif themâu'r dystiolaeth a gafwyd, ac yn cynnwys ein sylwadau, ein casgliadau a'n hargymhellion.

1. Parodrwydd y sector bwyd a diod yng Nghymru – y prif themâu a chanfyddiadau

Mae'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru yn sector economaidd allweddol, ac mae'n debygol o gael ei effeithio mewn nifer o ffyrdd gan hynt Brexit. Yn ôl ffigurau Llywodraeth Cymru, roedd y sector bwyd a diod yng Nghymru yn gyfrifol am drosiant o £4.8 biliwn yn 2016, ac roedd y diwydiant yn gyfrifol am 20,400 o swyddi y flwyddyn honno.¹

¹ Llywodraeth Cymru, "[Bwyd a Diod Cymru mewn Niferoedd](#)"

1.1. Y farchnad, rheoleiddio, a chystadleuaeth

6. Gellid dadlau mai'r broblem fwyaf sy'n wynebu'r diwydiant bwyd, ac a godwyd â ni mewn tystiolaeth, yw'r ansicrwydd ynghylch trefniadau masnachu â Marchnad Sengl yr UE.² Roedd papur Cymdeithas Diodydd Meddal Prydain a'r Ffederasiwn Bwyd a Diod yn pwysleisio bod cynhyrchwyr bwyd yn gweithredu o fewn cadwyni cyflenwi hynod o integredig o fewn yr UE, boed hynny i gael gafael ar gynhyrchion amrwd neu werthu nwyddau gorffenedig fel ei gilydd.³

7. Yn ei bapur, gwnaeth Hybu Cig Cymru dynnu sylw at y ffaith nad yw pobl Cymru ond yn bwyta 5 y cant o'r cig oen y mae'n ei gynhyrchu, â rhwng 55 a 60 y cant yn cael ei fwyta yng ngweddill y DU.⁴ Caiff y 35-40 y cant sy'n weddill ei allforio, â thros 92 y cant o'r allforion hynny yn mynd i'r Undeb Ewropeaidd.⁵ At hynny, caiff 15 y cant o gig eidion Cymru ei allforio, gyda 93 y cant o'r allforion yn mynd i weddill yr UE. Mae allforion cig oen Cymru yn werth tua £124 miliwn y flwyddyn, ac mae cig eidion Cymreig yn werth £61 miliwn y flwyddyn.

8. O ran y marchnadoedd newydd, dywedodd Hybu Cig Cymru ei fod yn cydweithio ag allforwyr i dyfu'r farchnad mewn mannau eraill megis Canada, Y Swistir, Hong Kong a'r Emiraethau Arabaidd Unedig.⁶ Fodd bynnag, dywed Hybu Cig Cymru:

"If and when exports are permitted to new countries, it is likely to take several years to establish new trading relationships and build brand identity. Supplying increased quantities of fresh beef and lamb to markets further afield than Europe will also require the industry to undertake concerted action over a period of years to increase the shelf-life of red meat products."⁷

9. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Gwyn Howells o Hybu Cig Cymru wrthym am lansiad strategaeth newydd y sefydliad a fyddai'n weithredol hyd at 2025:

"It's largely a road map of our work on behalf of the industry both now and in the future up to 2025 to actually position red meat from Wales as premium both in the home market, which is a GB market, and that's

² Tystiolaeth ysgrifenedig, [Y Ffederasiwn Bwyd a Diod a Chymdeithas Diodydd Meddal Prydain; Hybu Cig Cymru](#).

³ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Y Ffederasiwn Bwyd a Diod a Chymdeithas Diodydd Meddal Prydain](#)

⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Hybu Cig Cymru](#).

⁵ Ibid.

⁶ Ibid.

⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Hybu Cig Cymru](#).

the most important market for us, but also in the European market, which is extremely, extremely important to us, and further afield as well. Part of the strategy is to develop those markets, we would call them third country markets, beyond Europe, if you like, at an accelerated pace over the next few years in order to de-risk our portfolio of exports, which is largely in the European basket at the moment.”⁸

10. Soniodd Andy Richardson o Bwyd a Diod Cymru hefyd am bwysigrwydd y farchnad Ewropeaidd ar gyfer y sector bwyd a diod yng Nghymru, ac meddai fod 88 y cant o allforion ar hyn o bryd yn mynd i'r farchnad Ewropeaidd, â gwerthiant i weddill y byd yn gyfrifol am y 12 y cant sy'n weddill.⁹

11. Soniodd Gwyn Howells am ffactorau eraill hefyd, megis y ffaith bod natur dymhorol cig oen Cymreig yn wendid i'r sector. Dywedodd Mr Howells:

“[...]we need export market valves opening at certain times of the year, for example, from September on until January, and without that ability to have free trade with the European consumer base, we would find that very, very difficult. The sector would be in some serious short-term problems, given that 35 per cent of all our production—one in three lambs born in Wales—finds itself in European countries as a destination at the end and, therefore, that is a big risk for the sector.”¹⁰

12. Ym mis Chwefror 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad Senarios Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.¹¹ Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod “heriau difrifol yn wynebu'r sector defaid oherwydd ei fod yn dibynnu ar allforio er mwyn gwrthbwysu'r ffaith mai ar sail dymhorol y mae'n cynhyrchu ac er mwyn sicrhau cydbwysedd carcasau”.¹² Roedd hefyd yn nodi y bydd “y sector cig eidion yn parhau'n hyfyw, a bydd ganddo ddiwydiant llaeth ffyniannus i gyflenwi lloi ar ei gyfer. Bydd gwell cydbwysedd carcasau, a llai o ddibyniaeth ar allforio”.¹³

13. Dywedodd y Prif Weinidog wrthym mewn tystiolaeth ysgrifenedig mai diben buddsoddiadau trwy Gronfa Bontio'r UE yw helpu'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i baratoi ar gyfer Brexit, a bod y buddsoddiadau yn

⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, [paragraff 307](#) – 8 Hydref 2018

⁹ Cofnod y Trafodion, [paragraff 310-311](#) – 8 Hydref 2018

¹⁰ Cofnod y Trafodion, [paragraff 309](#) – 8 Hydref 2018

¹¹ Llywodraeth Cymru, “Lesley Griffiths yn croesawu adroddiad ar senarios Gadael yr UE”, - 19 Chwefror 2018

¹² Ibid.

¹³ Ibid.

cynnwys ymyriad o £5 miliwn i gefnogi'r sectorau ffermio, pysgota a bwyd i baratoi ar gyfer Brexit.¹⁴ Ar 8 Hydref 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru arian ychwanegol i gefnogi'r sector cig coch trwy "Fenter Meincnodi Cig Coch" gwerth £2.15 miliwn.¹⁵ Crëwyd y fenter i gefnogi 2,000 o ffermwyr i feithrin gwell dealltwriaeth ynghylch perfformiad technegol ac ariannol eu busnes ac i sicrhau eu bod yn gystadleuol mewn marchnad newidiol.¹⁶

14. Wrth drafod safonau cynhyrchu a bwyta, dywedodd Gwyn Howells wrthym:

"I think it's crucially important that, in any trade deal going forward, both with the EU and, indeed, perhaps more significantly, with third countries that wish to export into the UK, the standards and equivalence of food coming into the UK is of the same standard as the food that we produce and eat here. I think that's really important going forward not only to secure industry, but more importantly to ensure that consumer standards are adhered to."¹⁷

15. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd y Prif Weinidog wrthym ei fod o fudd economaidd i Gymru atal bwydydd rhatach rhag cael eu mewnfario o dramor ar ôl Brexit. Dywedodd:

"If we're saying what we want to do is to import cheaper foodstuffs from other countries without any restriction, well, our farmers aren't going to compete with that. Our agriculture industry is in the same position as agriculture everywhere else in the EU. It's no different. It's no more sustainable. It's not less sustainable. And if we were to allow unrestricted flows of food—quite often of a far lower quality, produced to far lower standards at lower cost—into our market, our farmers wouldn't compete with that. They couldn't possibly do it. So, we have to consider that very, very carefully. I don't think it is a case of inferior products coming into the UK and then into the EU that's the issue here."¹⁸

16. Aeth y Prif Weinidog ymlaen i ddweud y byddai prynu bwyd ar y farchnad fyd-eang yn creu problemau i amaethyddiaeth yng Nghymru.

¹⁴ Cohebiaeth gan y Prif Weinidog ynghylch parodrzydd - 2 Tachwedd 2018

¹⁵ Llywodraeth Cymru, "Cychwyn prosiect meincnodi i helpu'r sector cig coch i baratoi ar gyfer Brexit"- 8 Hydref 2018

¹⁶ Ibid.

¹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 357 - 8 Hydref 2018

¹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 75 - 8 Hydref 2018

“[...]you create immense problems for your own agricultural industry, because they'll never be able to compete on price; it's not possible. The price of land in the UK is far higher than in many other countries. Environmental regulations in other markets are non-existent, and their climates are different. Take lamb in New Zealand, on the north island, the grass grows all year round, they don't have to worry about providing feed in the winter. If you look at the animals' growth, they're far bigger, and it takes as much to process a larger animal as it does a smaller animal. And they operate without subsidy, because the price of land is also very low. We can never replicate that in the UK, and we should think very carefully about opening our markets in such a way that will lead to a detrimental effect on the rural areas.”¹⁹

1. 2. Ein barn

Rydym yn nodi'r pryderon ynghylch colli mynediad at Farchnad Sengl yr UE ar ôl Brexit. Fodd bynnag, rydym yn nodi, os caiff y Cytundeb Ymadael ei gytuno, y dylai ddarparu rhagor o sicrwydd i gynhyrchwyr bwyd o ran cael mynediad at y farchnad, gyhyd â'r cyfnod pontio o leiaf (y disgwylir iddo orffen fis Rhagfyr 2020 ar hyn o bryd).

Rydym wedi clywed bod gwaith yn mynd rhagddo i ystyried marchnadoedd newydd ar gyfer allforio bwyd a diod o Gymru, yn enwedig allforion cig coch, ond ei bod yn bosibl na fydd y gwaith hwn yn esgor ar ganlyniadau am nifer o flynyddoedd. At hynny, rydym wedi clywed bod angen mynd i'r afael â ffactorau yn y broses o gynhyrchu cig coch yn benodol, gan gynnwys ei natur dymhorol a'i gyfnod silff byr, er mwyn sicrhau mynediad at farchnadoedd newydd.

Rydym yn croesawu'r cyllid a glustnodwyd gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwaith ymchwil a meincnodi yn y sector, ac rydym yn credu y dylid cyhoeddi canlyniad y gwaith hwn cyn gynted ag y bo'n ymarferol i alluogi'r sector i baratoï.

Rydym yn deall bod Llywodraeth Cymru wedi dechrau gweithio ar strategaeth bwyd a diod a chynllun gweithredu newydd i gefnogi'r diwydiant ar ôl 2020.

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod gwaith Llywodraeth Cymru ar strategaeth bwyd a diod a chynllun gweithredu newydd yn rhoi ystyriaeth i'r gwaith ymchwil sydd ar y gweill i feincnodi'r sector. At hynny, dylai unrhyw strategaeth newydd ar gyfer y sector ar ôl Brexit osod amcanion clir ac uchelgeisiol, gan gynnwys defnyddio targedau priodol, er mwyn gwella

¹⁹ Cofnod y Trafodion, [paragraff 77](#) – 8 Hydref 2018

mynediad Cymru at farchnadoedd newydd yng ngweddill y byd i allforio cynhyrchion bwyd a diod o Gymru.

1. 3. Enwau bwydydd gwarchoddedig (Dangosyddion Daearyddol)

17. Mae rhaglen enwau bwydydd gwarchoddedig yr UE yn gwarchod bwydydd a diodydd rhanbarthol a thraddodiadol cofrestredig ledled yr UE, o dan y gyfraith, rhag cael eu hefelychu. Ar hyn o bryd mae 15 o gynhyrchion Cymreig wedi'u cofrestru o dan y cynllun gyda dau arall yn aros i gael eu cymeradwyo, ac maent yn cynnwys cynhyrchion fel cig oen, cig eidion, halen Môn a thatws cynnar Sir Benfro.²⁰

18. Mewn tystiolaeth lafar, pwysleisiodd Gwyn Howells bwysigrwydd statws gwarchoddedig cig oen Cymru ers 2002 o ran ychwanegu at werth y brand.²¹ Dywedodd Mr Howells:

“For example, to give you some metrics, back in 2003, Welsh farm exports were around £50 million per annum. By last year, 2017, it was £150-odd million, so it’s three times as much over the 15 years. It’s not specifically down to the PGIs, but, obviously, it’s down to the provenance story, and we have a very, very strong brand and awareness in Wales, which has helped—and it’s no coincidence—in those markets where we have traded very, very heavily, such as France, Germany, Italy, the Low Countries and Spain. The protected food name schemes are recognised as marks of quality identified by consumers across the continent, and it’s no coincidence that we’ve grown on the back of that.”²²

19. Ar 4 Hydref 2018, lansiodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad ar greu cynllun ar draws y DU ar gyfer Dangosyddion Daearyddol ar ôl Brexit.²³ Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar 1 Tachwedd 2018. Mynegodd Andy Richardson o Bwyd a Diod Cymru ei bryderon ynghylch yr amserlenni ar gyfer llunio cynllun newydd a'i weithredu:

“I understand now that the British Government have just started a consultation on GIs, and, effectively, it is getting quite late for that now,

²⁰ Llywodraeth y DU, “[Protected food name scheme: UK registered products](#)” - [gwelwyd] 9 Hydref 2018

²¹ Cofnod y Trafodion, [paragraff 368](#) – 8 Hydref 2018

²² Cofnod y Trafodion, [paragraff 369](#) – 8 Hydref 2018

²³ Llywodraeth y DU, “[Geographical Indications \(GI\): creating UK schemes after EU exit](#)” – 4 Hydref 2018

and what I'm worried about is that, if we don't retain the EU system, then we'll have to set up our new GI system and that will take months to do. So, effectively, the concern I have is what happens when we leave at the end of March."²⁴

20. Ychwanegodd Mr Richardson ei fod o blaid parhau â chynllun yr UE ar ôl Brexit:

"As I previously mentioned, firstly, I haven't seen any reasons why it would be better to break away from that [*the EU scheme*], and secondly, if we do break away, it's going to take time to set up. And the third point is just to reinforce what's been said: we have to protect the quality and image of our produce, particularly in Wales, because if we let it slip, it will take months and years to get back."²⁵

21. Mae Erthygl 54(2) o'r Cytundeb Ymadael arfaethedig yn cynnwys darpariaethau ar gyfer parhau i warchod dangosyddion daearyddol, enwau tarddiad, ac arbenigeddau traddodiadol yn y DU a'r UE.²⁶ Yn ôl Dr Tobias Lock o Brifysgol Caeredin, y gwnaethom ei gomisiynu i lunio dadansoddiad arbenigol o'r Cytundeb Ymadael, bydd yr enwau bwydydd gwarchodedig hyn yn parhau i gael eu gwarchod, oni bai y disodlir hynny gan gytundeb ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.²⁷ At hynny, roedd papur Dr Lock yn cadarnhau y byddai cynnyrch megis "cig oen Cymreig" a "chaws Caerffili" yn parhau i gael eu gwarchod yn yr UE; ac y câi enwau cynnyrch megis "Parma ham" eu gwarchod yn y DU.²⁸

1.4. Ein barn

Rydym yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi cynnal ymgynghoriad ar y posibilrwydd i greu cynllun newydd ar draws y DU i warchod dangosyddion daearyddol ar ôl Brexit, ond rydym yn gresynu at y cyfnod cyfyngedig o bedair wythnos a oedd ar gael i ymateb i'r ymgynghoriad.

Clywsom bryderon ynghylch yr amser cyfyngedig sydd ar gael i fynd ati i lunio a gweithredu cynllun yn foddhaol, a fyddai'n dilyn system warchodaeth bresennol

²⁴ Cofnod y Trafodion, [paragraff 362](#) – 8 Hydref 2018

²⁵ Cofnod y Trafodion, [paragraff 366](#) – 8 Hydref 2018

²⁶ Y Comisiwn Ewropeaidd, "[European Commission recommends to the European Council \(Article 50\) to find that decisive progress has been made in Brexit negotiations](#)" – 14 Tachwedd 2018

²⁷ Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, Atodiad i'w adroddiad – "[Y Cytundeb Ymadael: Goblygiadau i Gymru](#)."

²⁸ Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, Atodiad i'w adroddiad – "[Y Cytundeb Ymadael: Goblygiadau i Gymru](#)."

yr UE cyn diwedd Mawrth 2019. Fodd bynnag, rydym yn nodi ymhellach y byddai'r cynigion yn y Cytundeb Ymadael, pe cânt eu mabwysiadu, yn dileu'r angen am gynllun newydd yn y DU tan ddiwedd y cyfnod pontio.

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, yn amlinellu pa drafodaethau y mae wedi eu cael â Llywodraeth y DU ynghylch creu cynllun ar draws y DU ar ôl Brexit, gan gynnwys p'un a yw wedi codi pryderon ai peidio ynghylch y cyfnod cyfyngedig o amser i ymgynghoreion gyfrannu at yr ymgynghoriad.

Rydym yn credu bod cadw statws gwarchoddedig ar gyfer cynhyrchion bwyd a diod Cymru yn hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant parhaus y cynhyrchion hynny a'r "brand Cymreig" cyffredinol o fwyd a diod ar ôl Brexit ac mae'n dda gennym weld ymdrechion i sicrhau hyn.

1. 5. Cadwyni cyflenwi bwyd

22. Cynhaliwyd ein gwaith ar barodrzydd y sector bwyd a diod yng Nghymru yng nghyd-destun gweithgarwch cynyddol Llywodraeth y DU yn y maes hwn. Mae'r gweithgarwch hwn wedi cynnwys cyhoeddi hysbysiadau technegol Llywodraeth y DU fis Awst a Medi eleni, a phenodiad David Rutley AS ar 3 Medi 2018 yn Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, gyda'i gyfrifoldebau yn cynnwys parodrzydd ar gyfer ymadael â'r UE a chadwyni cyflenwi bwyd.²⁹

23. O ran goblygiadau Brexit "dim bargaen", dywedodd Andy Richardson wrthym y ceir graddau amrywiol o ymwybyddiaeth ymhlith staff y sector:

"I think there's a range in the way businesses are reacting. So, those businesses that buy and sell—dried powders, for example, have longer shelf lives so it's actually, to a certain extent, easier to put in place mitigative plans to get around that. I think the challenge will be for those products that come in and go out that are fresh produce—those are the real challenges. I think businesses are waking up to the issue to various degrees. I think some are very, very aware of it, and some are literally just coming around to the implications. So, it's very important. That's why I'm saying, as a board, we're now spending a lot of time engaging with businesses in Wales and getting them to understand."³⁰

²⁹ Llywodraeth y DU, "[How to prepare if the UK leaves the EU with no deal](#)", - [gwelwyd] 12 Hydref 2018

³⁰ Cofnod y Trafodion, [paragraff 418](#) - 8 Hydref 2018

24. Aeth Mr Richardson ymlaen i ddweud ei fod yn croesawu penodiad David Rutley AS yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

25. Dywedodd Gwyn Howells wrthym fod y ddadl ynghylch trefniadau cyflenwi bwyd mewn senario “dim bargaen” yn tynnu sylw at fater ehangach gwarchodaeth bwyd yn y DU. Dywedodd Mr Howells:

“Given the geopolitical challenges on the global scene at the moment, I think we’ve got to make sure as well that we have UK food supplies that are plentiful going forward in order to feed our nation as well, but also for economic growth. I think that’s really, really important, and I’m sure that’ll become higher up the agenda in the next few weeks. Given our self-sufficiency in some foodstuffs—we are very reliant on imports, and therefore I think there is a deficit there. The industry, on a GB or UK basis, can fill some of that void, but I think it needs some direction in order to do that.”³¹

1. 6. Ein barn

Ni chawsom lawer o dystiolaeth ynghylch parhad trefniadau cyflenwi bwyd ar ôl Brexit. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod gweithgarwch ar y gweill ar lefel y DU i ystyried y materion hyn fel rhan o waith ehangach ar baratodau Brexit. At hynny, mae ein darn arall o waith ar barodrwydd porthladdoedd Cymru yn ein harwain i ddod i’r casgliad bod gwendidau posibl o ran parhau’n ddi-dor â threfniadau cadwyni cyflenwi bwyd os bydd achosion newydd o oedi neu wiriadau ar waith os ceir Brexit “heb fargaen”.

Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i’r adroddiad hwn, yn amlinellu manylion y gwaith sydd ar y gweill i helpu busnesau i liniaru effeithiau Brexit “heb fargaen” ar ddiogelwch a parhad trefniadau cyflenwi bwyd yng Nghymru.

³¹ Cofnod y Trafodion, [paragraff 424](#) – 8 Hydref 2018